# CRWYDRO'R PRESELAU

## DEUNYDDIAU ATEGOL

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar agweddau penodol ar ddysgu yn yr awyr agored, gall y deunyddiau hyn gyfoethogi'r profiadau sy'n ennyn diddordeb a ddarperir gennych. Gallant eich cefnogi wrth i chi ddylunio, cynllunio a gweithredu eich cwricwlwm. Mae dysgu yn yr awyr agored yn ffordd wych o ddatblygu sgiliau cyfannol dysgwyr (creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Byddwch eisiau canolbwyntio ar pam mae dysgu o bwys a sicrhau eich bod yn diwallu anghenion eich dysgwyr.

Mae'r deunyddiau hyn yn dangos llwybr y gellid ei gymryd drwy'r gweithgaredd. Nid yw hyn i fod yn rhagnodol. Dylech addasu eich dull, yn dibynnu ar anghenion a diddordebau eich dysgwyr a'ch ardal leol.

### TROSOLWG

Mae dysgwyr yn dod i wybod am rywfaint o hanes y Preselau a'r Heol Aur. Maent yn creu llinell amser fyw, gan gynrychioli digwyddiadau mewn dau ddimensiwn gwahanol. Wrth wneud archwiliad pellach o hanes y Preselau, arweinir y dysgwyr i ddechrau drafftio llinell amser 2D ar gyfer y Preselau. Maen nhw'n ymchwilio i ddarganfod sut roedd yr Oes Efydd a'r Oes Haearn wedi effeithio ar y Preselau. Mae'r dysgwyr yn darganfod sut mae Côr y Cewri wedi'i gysylltu â'r Preselau a digwyddiadau eraill fel marwolaeth y Brenin Arthur, damwain awyren fomio'r Liberator, Brwydr y Preselau, ac ati, gan ddefnyddio'r rhain i gyd yn eu llinell amser.

### CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd dan sylw:**

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Mynediad at: Find out what every symbol means on an OS Explorer map - OS GetOutside (Saesneg yn unig).
Dulliau o fesur, e.e. preniau mesur, ffyn metr, tâp mesur chwaraeon, pedomedr.
Dulliau o labelu pwyntiau a dangos llinell amser yn yr awyr agored, e.e. sialc, llinyn, ffyn, ac ati.
Er nad yw'n hanfodol, byddai mynd â dysgwyr i'r Preselau i weld yr arteffactau a'r henebion hanesyddol hyn yn cyfoethogi'r dysgu.

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Er mwyn cyrchu'r raddfa ar Google maps, cliciwch ar 'View larger map'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

## BETH YDYM NI'N EI WYBOD AM Y PRESELAU?

Eglurwch wrth y dysgwyr y dylai'r dasg hon eu helpu i ddarganfod mwy am hanes y Preselau a'r Heol Aur.

### Sgrîn 3

Ar y sgrîn hon, rhoddir gwybodaeth am leoliad y Preselau. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol, ac yna braslunio'r dirwedd y bydden nhw'n dod o hyd iddi yn y Preseli, yn eu meddyliau nhw.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth ydych chi'n ei wybod am y Preselau? Sut ydych chi'n gwybod y pethau hyn?
- Pa mor hen yw'r mynyddoedd, yn eich barn chi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa nodweddion allai fod yn y dirwedd hon? Pam?

## Sgrîn 4

Eglurwch wrth y dysgwyr fod y Preselau yn gyfoethog o ran hanes a safleoedd cynhanesyddol, gan gynnwys carneddau claddu sy'n dyddio'n ôl i fryngaerau'r Oes Efydd a'r Oes Haearn. Ar ben bryn Foel Drygarn, mae olion o'r Oes Efydd, sef rhagfuriau cerrig, cloddiau a ffosydd. Mae'r rhain yn amgylchynu'r copa, gan ychwanegu at y dirwedd sy'n cynnwys clogwyni a chreigiau naturiol.

## Sgrîn 5

Ar y sgrîn hon, cyflwynir yr Heol Aur, sef llwybr hynafol, 8 milltir (13km) sy'n ymdroelli ar hyd copa'r Preselau. Gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar fap Arolwg Ordnans (OS) o'r ardal a dod o hyd i'w hysgol. Yna, penderfynwch a fyddai angen iddynt deithio i'r Gogledd, y Dwyrain, y De neu'r Gorllewin er mwyn cyrraedd y Preselau o'r ysgol.

## Sgrîn 6

Gofynnwch i'r dysgwyr glicio ar y tab perthnasol i ddod o hyd i gyfarwyddiadau ar gyfer man dechrau 'Taith Gerdded yr Heol Aur' o'u hysgol. Yna, i olrhain y cyfarwyddiadau ar y map OS.

## Sgrîn 7

Ar y sgrîn hon, sonnir am y dadlau rhwng archeolegwyr ynghylch pwysigrwydd yr Heol Aur, sy'n dyddio'n ôl tua 5,000 o flynyddoedd i'r cyfnod Neolithig. Gwahoddwch y dysgwyr i edrych ar map OS o'r Heol Aur a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa mor uchel yw'r Heol Aur? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pam y byddai pobl am geisio osgoi teithio trwy goedwigoedd? Pam y gallai'r tir fod yn beryglus?

## Sgrîn 8

Gwahoddwch y dysgwyr i ddefnyddio'r mapiau a thrafod y cwestiynau canlynol. Wrth ddefnyddio Google Map, bydd angen i chi glicio ar 'View larger map' er mwyn gweld graddfa'r map.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut ydych chi'n meddwl y byddai aur wedi cael ei gludo o fynyddoedd Wicklow yn Iwerddon i'r Heol Aur? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Dewch o hyd i Wessex ar yr hen fap. Pa mor bell yw hi i Wessex o'r Heol Aur? Sut allwch chi amcangyfrif y pellter?
- Sut ydych chi'n meddwl y byddai aur wedi cael ei gludo i Wessex o'r Heol Aur? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

TASG 2

# SUT MAE CREU LLINELL AMSER?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw yn darganfod sut i greu llinell amser fyw a'i chynrychioli mewn dau ddimensiwn, yn y dasg hon. Byddant yn archwilio'r Heol Aur a'i hanes ymhellach, fel y gallant ddechrau drafftio llinell amser 2D ar gyfer y Preselau.

## Sgrîn 3

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw llinell amser? Sut ydych chi'n gwybod?
- Sut ydych chi'n creu llinell amser? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa gamau sydd angen i chi eu cymryd? Pam?
- Sut ydych chi'n penderfynu ar ba ddyddiad i ddechrau a gorffen y linell amser? Pam?
- Pa mor hir y mae angen i linell amser fod? Pam?
- Sut ydych chi'n penderfynu pa raddfa i'w defnyddio? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## Sgrîn 4

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod nhw'n mynd i greu 'llinell amser fyw' ar dir yr ysgol sy'n dangos amser un aelod o'r grŵp, yn yr ysgol. Cyn iddynt wneud eu llinell amser, gofynnwch i grwpiau bach o ddysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sawl blwyddyn mae angen i'ch llinell amser ddangos? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pryd fydd y linell amser yn dechrau? Pam?
- Pryd fydd y linell amser yn dod i ben? Pam?
- Pa raddfa fyddwch chi'n ei defnyddio ar gyfer y linell amser? Pam?
- Sut byddwch chi'n mesur eich graddfa?
- Sut byddwch chi'n nodi rhaniadau eich llinell amser?
- Beth yw'r prif ddigwyddiadau y mae angen i chi eu dangos ar y linell amser? Pam ydych chi wedi dewis y rhain?
- Sut byddwch chi'n gweithio allan ble i roi'r digwyddiadau hyn ar y linell amser? Pam ei wneud fel yna?
- Sut byddwch chi'n dangos y prif ddigwyddiadau ar eich llinell amser? Pam eu dangos fel hynny?

## Sgrîn 5

Unwaith y bydd y dysgwyr wedi cynllunio eu llinell amser, gofynnwch iddyn nhw fynd allan i'r awyr agored i greu eu llinell amser.

## Sgrîn 6

Gwahoddwch y dysgwyr i fyfyrio ar y dasg trwy drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth oedd y problemau wrth greu eich llinell amser fyw?
- Sut wnaethoch chi oresgyn y problemau hyn?
- Pe gallech chi wneud eich llinell amser eto, beth fyddech chi'n ei wneud er mwyn ei gwella?

## Sgrîn 7

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod yn mynd i wneud fersiwn dau ddimensiwn (2D) o'u llinell amser fyw, sy'n dangos amser un aelod o'r grŵp yn yr ysgol. Yna, dylai'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth oedd hyd y linell amser fyw? Pa mor hir all y fersiwn 2D fod? Sut ydych chi'n gwybod?
- Sut byddwch chi'n addasu'r linell amser fyw i wneud fersiwn 2D?
- Pa raddfa fyddwch chi'n ei defnyddio ar gyfer y linell amser 2D? Pam?
- Beth yw'r prif anawsterau wrth greu llinell amser 2D? Sut byddwch chi'n datrys yr anawsterau hyn? Pam eu datrys fel hyn?
- Beth yw manteision ac anfanteision y linell amser 2D? Pam?

## Sgrîn 8

Gofynnwch i'r dysgwyr gyrchu a darllen y ddogfen 'Meini Prawf ar gyfer creu llinell amser' a dilyn y cyngor i greu eu llinell amser.

## Sgrîn 9

Gwahoddwch y dysgwyr i rannu eu llinell amser gyda grŵp arall, gan ofyn iddyn nhw ystyried:

- I ba raddau mae'r linell amser 2D yn cyd-fynd â'r cyngor yn y ddogfen?
- Sut y gellid gwella'r linell amser 2D? Pam y byddai'r pethau hyn yn ei gwella?

Gellir cyrchu'r ddogfen 'Meini Prawf ar gyfer creu llinell amser' eto o'r sgrîn hon.

## Sgrîn 10

Eglurwch wrth y dysgwyr fod yr Heol Aur, fel y gwelsom yn gynharach, yn lwybr hynafol sy'n dilyn llwybr y dywedir ei fod yn dyddio'n ôl i'r cyfnod Neolithig, 5,000 o flynyddoedd yn ôl.

Gwahoddwch y dysgwyr i ymweld â'r dudalen we: Cerdded ar yr Heol Aur a darllen am gerdded ar yr Heol Aur. Yna, dylent drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa dirnodau naturiol sy'n cael eu trafod?
- Pa dirnodau a wnaed gan bobl, sy'n cael eu trafod?
- Pa fythau a chwedlau sy'n cael eu crybwyll?
- Pa Oesoedd hanesyddol sy'n cael eu crybwyll? Pryd oedd yr Oesoedd hyn?

## Sgrîn 11

Dywedwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n casglu gwybodaeth am hanes y Preselau trwy gydol gweddill y gweithgaredd hwn. Byddant yn defnyddio'r wybodaeth hon i greu llinell amser ar gyfer y Preselau.

Gwahoddwch grwpiau bach o ddysgwyr i ddechrau ar ddrafft cyntaf eu llinell amser, gan ddefnyddio'r wybodaeth maen nhw wedi'i chael am yr Heol Aur. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sawl blwyddyn mae angen i'ch llinell amser eu dangos? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pa raddfa fyddwch chi'n ei defnyddio ar gyfer y linell amser? Pam?
- Mae'n debygol y bydd cyfnodau hir o amser heb unrhyw weithgaredd ar eich llinell amser. Sut byddwch chi'n dangos hyn?

TASG 3

# PA GYFNODAU HANESYDDOL ALLWN NI EU HYCHWANEGU AT EIN LLINELL AMSER?

Eglurwch wrth y dysgwyr y bydd y dasg hon yn eu helpu i ddeall sut yr effeithiodd yr Oes Efydd a'r Oes Haearn ar y Preselau.

## Sgrîn 3

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod nhw fel grŵp yn mynd i chwilio ar y rhyngrwyd i ddarganfod gwybodaeth naill ai am yr Oes Efydd neu'r Oes Haearn mewn hanes a pha dystiolaeth o'r oes hon sydd i'w chael yn y Preselau. Yna, byddant yn adrodd eu canfyddiadau i weddill y dosbarth mewn cyflwyniad munud o hyd.

## Sgrîn 4

Gofynnwch i'r dysgwyr, yn eu grwpiau, benderfynu sut y byddan nhw'n cynnal chwiliad ar y rhyngrwyd i ddarganfod gwybodaeth naill ai am yr Oes Efydd neu'r Oes Haearn mewn hanes a pha dystiolaeth o'r oes hon sydd i'w chael yn y Preselau. Ceisiwch sicrhau bod hanner y grwpiau yn edrych ar bob cyfnod.

Atgoffwch nhw bod angen iddynt ystyried y canlynol, er mwyn cynnal chwiliadau ar y rhyngrwyd:

*Cyn ymchwilio...*

- Sut byddwch chi'n cynnal yr ymchwil hwn? Pam?
- Pa dermau chwilio allech chi eu defnyddio? Pa rai yw'r gorau? Pam?
- Pa fath o wefannau fydd orau i edrych arnynt? Pam?

*Wrth asesu gwybodaeth/data...*

- Sut ydych chi'n gwybod bod y wybodaeth neu ddata yn ddibynadwy? Sut allech chi ddarganfod os yw'n ddibynadwy?
- A allai'r wybodaeth neu ddata fod yn unochrog? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## Sgrîn 5

Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r grid CwAMFf a ddarperir i gynllunio a chynnal eu chwiliad.

## Sgrîn 6

Gwahoddwch y dysgwyr i edrych ar y wybodaeth maen nhw wedi'i chasglu o'r chwiliad ar y rhyngrwyd ac i ystyried y cwestiynau canlynol, yn eu grwpiau.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw'r darnau o wybodaeth allweddol? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth allech chi ei adael allan? Pam?
- Sut byddwch chi'n cyflwyno'r wybodaeth hon? Pam?
- Sut y byddwch yn sicrhau mai dim ond munud o hyd yw eich cyflwyniad?

## Sgrîn 7

Gwahoddwch y dysgwyr i gyflwyno'r wybodaeth maen nhw wedi'i chasglu, i'r dosbarth. Gofynnwch i'r gynulleidfa nodi unrhyw bwyntiau diddorol am y ddau gyfnod, y gallant eu defnyddio yn eu llinell amser eu hunain.

## Sgrîn 8

Gofynnwch i'r dysgwyr ychwanegu'r wybodaeth y mae'r dosbarth wedi'i chasglu am yr Oes Efydd a'r Oes Haearn at eu llinell amser ddrafft a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ym mhle ar eich llinell amser ddrafft y dylid ychwanegu'r wybodaeth hon? Pam?
- Sut y byddwch chi'n crynhoi'r wybodaeth?
- Meddyliwch pa mor dda y mae eich llinell amser yn gweithio, o ran ei maint a'i graddfa. A oes angen i chi ddiwygio eich llinell amser ddrafft? Os oes, sut y byddech yn gwneud hynny?

TASG 4

# SUT MAE CÔR Y CEWRI YN GYSYLLTIEDIG Â'R PRESELAU?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n dod i wybod am y cysylltiadau rhwng y Preselau a Chôr y Cewri er mwyn ychwanegu digwyddiadau at eu llinell amser.

## Sgrîn 3

Ar y sgrîn hon, rhoddir rhywfaint o wybodaeth am Gôr y Cewri, a rhestrir rhai cwestiynau i ddysgwyr eu hystyried:

- Beth yw Côr y Cewri?
- Pam y cafodd ei adeiladu?
- Sut oedd e'n gweithio?
- Beth oedd yr holl wahanol fathau hynny o gerrig yn ei olygu i bobl bryd hynny?

## Sgrîn 4

Dywedir wrth y dysgwyr mai'r Preselau oedd ffynhonnell llawer o'r cerrig gleision a ddefnyddiwyd wrth adeiladu Côr y Cewri. Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r map i:

- ganfod lleoliad y Preselau a Chôr y Cewri
- gweithio allan y pellter rhwng y ddau le
- ystyried pa lwybr y gallech ei ddefnyddio i symud y cerrig rhwng y ddau safle.

Bydd angen i'r dysgwyr glicio ar 'View larger map' i weld graddfa'r map.

## Sgrîn 5

Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r map a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ble mae'r Preselau ar y map? Sut ydych chi'n gwybod?
- Ble mae Côr y Cewri ar y map? Sut wnaethoch chi ddod o hyd iddo? Pam dod o hyd iddo fel hynny?
- Beth yw'r pellter rhwng y ddau safle? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth fyddai'r llwybr gorau i'w ddefnyddio i symud y cerrig o'r Preselau i Gôr y Cewri? Pam?
- Pa broblemau allai fod gyda'r llwybr hwn? Sut y gellid datrys y rhain?

Bydd angen i'r dysgwyr glicio ar 'View larger map' i weld graddfa'r map.

## Sgrîn 6

Mae'r sgrîn hon yn galluogi dysgwyr i weld erthygl newyddion am dîm a ail-greodd y gwaith o symud carreg las 3 tunnell o Fryniau'r Preselau i safle Côr y Cewri yn y flwyddyn 2000.

Gofynnwch i'r dysgwyr gyrchu a darllen: Mammoth Stonehenge trek starts (Saesneg yn unig).

Eglurwch wrth y dysgwyr fod llawer o gwestiynau wedi'u gofyn dros y blynyddoedd ynghylch sut y symudwyd y cerrig a pha lwybr a ddefnyddiwyd.

Gwahoddwch y dysgwyr i wneud chwiliad ar y rhyngrwyd i ddod o hyd i atebion i'r cwestiynau canlynol ac i adrodd eu canfyddiadau i'r dosbarth.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth ydych chi wedi'i ddarganfod ynghylch sut y symudwyd y cerrig? Ble daethoch chi o hyd i'r wybodaeth hon? Pa mor ddibynadwy yw'r wybodaeth? Sut ydych chi'n gwybod?
- Ar hyd pa lwybr y symudwyd y cerrig? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## Sgrîn 7

Eglurwch wrth y dysgwyr ei fod wedi cael ei dderbyn bod llawer o'r cerrig gleision a ddefnyddiwyd i adeiladu Côr y Cewri yn dod o'r Preselau. Fodd bynnag, mae tystiolaeth ddiweddar yn awgrymu y gallai Côr y Cewri fod wedi sefyll gyntaf ar ochr bryn ger arfordir Sir Benfro, ar safle o'r enw Waun Mawn.

Gofynnwch i'r dysgwyr ddilyn y ddolen (Saesneg yn unig) i ddarllen yr erthygl ymchwil. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa wybodaeth arall allwch chi ddod o hyd iddi yn yr erthygl?
- Pa mor ddibynadwy yw'r wybodaeth yn yr erthygl? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa mor bendant yw'r dystiolaeth? Pam?
- Pa dystiolaeth arall allwch chi ddod o hyd iddi? Ym mhle?
- A yw'r dystiolaeth arall hon yn ategu'r erthygl? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## Sgrîn 8

Gwahoddwch y dysgwyr i ychwanegu'r wybodaeth maen nhw wedi'i chasglu am Gôr y Cewri at eu llinell amser ddrafft. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ble ar eich llinell amser ddrafft y dylid ychwanegu'r wybodaeth hon? Pam?
- Sut byddwch chi'n crynhoi'r wybodaeth?
- Meddyliwch pa mor dda y mae eich llinell amser yn gweithio o ran ei maint a'i graddfa. A oes angen ichi ddiwygio eich llinell amser ddrafft? Os oes angen, sut y byddech chi'n ei diwygio?

TASG 5

# PA DDIGWYDDIADAU ERAILL ALLWN NI EU HYCHWANEGU AT EIN LLINELL AMSER?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n dod i wybod am ddigwyddiadau eraill yn y Preselau, y gallan nhw eu hychwanegu at eu llinell amser.

## Sgrîn 3

Ar y sgrîn hon, nodir mai Foel Cwmcerwyn yw'r man uchaf yn y Preselau, sef 536 metr o uchder a nodir bod Carn Bica gerllaw, fel pe bai yn gwarchod Bedd Arthur. Fodd bynnag, mae'n un o nifer o safleoedd yn Ynysoedd Prydain y mae llên gwerin lleol yn ei hawlio fel man claddu'r Brenin Arthur.

## Sgrîn 4

Gwahoddwch y dysgwyr i ymchwilio i fywyd a marwolaeth y Brenin Arthur. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- A oedd y Brenin Arthur yn bodoli? Pam ydych chi'n meddwl hynny? Pa dystiolaeth ddaethoch chi o hyd iddi? Pa mor ddibynadwy oedd y dystiolaeth?
- Beth wnaeth Arthur i ddod yn enwog?
- Pa straeon am y Brenin Arthur wnaethoch chi eu darganfod?
- Sut y bu farw'r Brenin Arthur? Sut ydych chi'n gwybod? Pryd a ble y digwyddodd hyn?
- Ble mae ei fedd? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## Sgrîn 5

Eglurwch wrth y dysgwyr fod stori Culhwch ac Olwen yn y Mabinogion yn adrodd hanes rhyfelwr dewr yn ceisio dod o hyd i'w briodferch hardd ar fynyddoedd gwyllt a garw'r Preselau. Mae'n debyg fod y stori wedi ei hysgrifennu tua 1100, ac mae hefyd yn cynnwys stori'r Brenin Arthur yn brwydro yn erbyn y Twrch Trwyth, sef baedd gwyllt hudolus o Iwerddon, yn y dyffryn islaw Moel Cwmcerwyn.

Gwahoddwch y dysgwyr i ddilyn y ddolen i ddarllen am y stori a gwylio fideo byr: Bryniau'r Preseli – Arfordir Parc Cenedlaethol Penfro (tua dwy funud a hanner o hyd). Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pwy yw'r prif gymeriadau yn y stori? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth yw prif nodweddion y stori hon? Sut ydych chi'n gwybod?
- A ydych chi'n meddwl bod hon yn stori wir neu'n fyth neu chwedl? Pam?

## Sgrîn 6

Gwahoddwch y dysgwyr i ychwanegu'r wybodaeth maen nhw wedi'i chasglu am y Brenin Arthur a chymeriadau a digwyddiadau eraill, at eu llinell amser ddrafft. Gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol am eu llinell amser ddrafft.

**Cwestiynau ffocws**

- Ble ar eich llinell amser ddrafft y dylid ychwanegu'r wybodaeth hon? Pam?
- Sut byddwch chi'n crynhoi'r wybodaeth?
- Meddyliwch pa mor dda y mae eich llinell amser yn gweithio o ran ei maint a'i graddfa. A oes angen i chi ddiwygio eich llinell amser ddrafft? Os oes angen, sut y byddech chi'n ei diwygio?

## Sgrîn 7

Eglurwch wrth y dysgwyr fod awyren o'r Ail Ryfel Byd wedi dod i lawr yn y Preselau, yn ystod taith yn y nos ar 19 Medi 1944. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam ydych chi'n meddwl bod y safle hwn yn cael ei goffáu?
- Pwy allai ymweld â'r safle hwn? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth fyddech chi'n disgwyl ei weld wedi'i ysgrifennu ar y plac? Pam?

## Sgrîn 8

Eglurwch wrth y dysgwyr ei bod yn anodd dod o hyd i safle damwain yr awyren fomio o'r math Liberator. Mae'r daith gerdded i safle'r ddamwain yn cychwyn i'r gorllewin o bentref Mynachlog-ddu, a gellir dod o hyd i'r pentref drwy ddefnyddio'r wybodaeth hon.

- Map Landranger 145: Cyf. map 12 30
- Cyfeirnod Grid SN 127 308
- Côd Post SA66 7SN

Gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar fap OS er mwyn dod o hyd i leoliad pentref Mynachlog-ddu.

## Sgrîn 9

Gwahoddwch y dysgwyr i ddefnyddio'r map a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut fyddech chi'n cyrraedd pentref Mynachlog-ddu o fannau eraill ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro:
  - Dinbych-y-Pysgod
  - Tyddewi
  - Casnewydd?
- I ba gyfeiriad fydd angen i chi deithio? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pa ffyrdd fyddech chi'n eu defnyddio? Pam?

Yna, gwahoddwch y dysgwyr i ysgrifennu set o gyfarwyddiadau ar gyfer un o'r llwybrau hyn a'u cymharu â chyfarwyddiadau parau eraill yn y dosbarth.

## Sgrîn 10

Gwahoddwch y dysgwyr i ychwanegu'r wybodaeth y maen nhw wedi'i chasglu am safle damwain yr Ail Ryfel Byd at eu llinell amser ddrafft. Gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol am eu llinell amser ddrafft.

**Cwestiynau ffocws**

- Ble ar eich llinell amser ddrafft y dylid ychwanegu'r wybodaeth hon? Pam?
- Sut byddwch chi'n crynhoi'r wybodaeth?
- Meddyliwch pa mor dda y mae eich llinell amser yn gweithio o ran ei maint a'i graddfa. A oes angen i chi ddiwygio eich llinell amser ddrafft? Os oes angen, sut y byddech chi'n ei diwygio?

## Sgrîn 11

Ar y sgrîn hon, rhoddir manylion am y Swyddfa Ryfel yn datgan ei bwriad i droi mwy na 200 o ffermwyr allan o'u cartrefi yn 1946, er mwyn troi'r Preselau yn ardal hyfforddi milwrol yn barhaol. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth ydych chi'n meddwl oedd ystyr 'We nurture souls in these areas'? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## Sgrîn 12

Yma, ceir gwybodaeth am Waldo Williams, a oedd yn un o feirdd Cymraeg mwyaf blaenllaw Cymru yn yr 20fed ganrif. Cyfansoddwyd un o'i gerddi enwocaf, 'Preseli' ym 1946, mewn ymateb uniongyrchol i'r bygythiad o ddynodi'r Preselau yn faes hyfforddi milwrol parhaol.

Gwahoddwch y dysgwyr i ddilyn y ddolen i wrando ar y gerdd: Preseli gan Waldo Williams (ychydig dros 2 funud o hyd) (Saesneg yn unig). Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth ydych chi'n meddwl yw'r 'bwystfil' yn llinell olaf y gerdd? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Ble ar y linell amser y dylid ychwanegu'r wybodaeth hon a gwybodaeth am y frwydr? Pam?
- Sut byddwch chi'n crynhoi'r wybodaeth?

Yna, dylai dysgwyr ychwanegu'r wybodaeth y maent wedi'i chasglu at eu llinell amser ddrafft.

## Sgrîn 13

Gofynnwch i bob grŵp edrych yn ôl ar y ddogfen 'Meini prawf ar gyfer creu llinell amser' a ddefnyddiwyd ganddynt yn Nhasg 2 a thrafod...

- Pa mor dda mae eich llinell amser yn bodloni pob un o'r meini prawf hyn?
- Sut y gallech ddiwygio eich llinell amser fel ei bod yn bodloni'r meini prawf hyn yn well?
- Pa mor dda y mae eich llinell amser yn gweithio o ran ei maint a'i graddfa? A oes angen i chi ei diwygio? Os oes angen, sut y byddech yn ei diwygio?
- Sut gallwch chi wneud eich llinell amser yn fwy diddorol?

Yna, gofynnwch iddynt gwblhau eu llinell amser.